HAPUSRWYDD ▪ HYDER ▪ LLWYDDIANT

HAPPINESS ▪ CONFIDENCE ▪ SUCCESS

Monday 13th December

Dear Parent/Carer

I would like to take this opportunity to thank you all for your support and to update you on the end of term arrangements. These continue to be extremely difficult times for all members of our community in Wrexham and we know that Covid-19 has had an ongoing impact on many aspects of our lives.

Despite the fact that we returned to face to face learning at the beginning of September, throughout the term many pupils across schools in Wrexham have continued to experience disruption to their education as we managed the impact of Covid 19 in different ways.

Recently, we have seen an increase in the number of positive cases of Covid 19 amongst children and adults in Wrexham County Borough. As a result, many children and young people have been required to self-isolate and present themselves for PCR tests. Unfortunately as we approach the Christmas break cases are continuing to rise. We are also acutely aware that any positive cases that may be identified next week would result in individuals having to isolate over the Christmas period, including Christmas Day. This would have a huge impact on our community.

All members of the education community are concerned about the rise in cases and the impact this is having on children and families. It has therefore been agreed with the Local Authority that face to face learning will cease for pupils at the end of Friday 17th December; and **remote learning will be provided for all pupils on the 20th and 21st of December.** Teachers will provide tasks for pupils using Seesaw and/or google classroom and will be available from 9am-10am in the mornings if pupils require any help or guidance with their work. If you would prefer that your child has their work printed off please let us know before Friday.

All schools will make provision available **for vulnerable learners and the children of critical workers where required**. We would request that parents who wish to make use of such provision, book sessions with us by Thursday 16th December please by emailing or phoning the school. The list of critical workers can be found in the following guidance:- Identifying children of critical workers: guidance | GOV.WALES **We would request that you only avail yourself of this provision if no alternative childcare arrangements can be made.** It is important that you are aware that if you require provision for pupils, they will not be put into class bubbles as they have been previously.

The local authority and our school community are absolutely committed to offering the best provision under increasingly difficult circumstances and we recognise how worrying this situation must be for you.

I am sure that you will join me in extending thanks to all of our school staff who have worked very hard to implement rigorous and robust safety measures and to do as much as they can to provide quality learning experiences. Your continued support and understanding in this situation is greatly appreciated.

I sincerely hope that you will enjoy a safe, family Christmas and that we can all look forward together to an improving situation in the New Year.

Yours sincerely,

Mrs Lora Sockett

HAPUSRWYDD ▪ HYDER ▪ LLWYDDIANT
HAPPINESS ▪ CONFIDENCE ▪ SUCCESS

Dydd Llun 13/12/21

Annwyl Riant/Ofalwr

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi am drefniadau diwedd y tymor. Mae'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn anodd iawn i bawb yn y gymuned ar draws Wrecsam ac fe wyddom oll fod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar sawl agwedd o'n bywydau.

Er ein bod wedi dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ddechrau mis Medi, drwy gydol y tymor, mae Covid-19 wedi parhau i amharu ar addysg nifer o ddisgyblion ar draws ysgolion yn Wrecsam wrth i ni geisio rheoli'r effaith mewn sawl ffordd wahanol.

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion positif o Covid-19 ymhlith plant ac oedolion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. O ganlyniad, bu'n rhaid i nifer o blant a phobl ifanc hunanynysu a mynd am brofion PCR. Yn anffodus, wrth i wyliau'r Nadolig nesáu, mae achosion yn parhau i gynyddu. Rydym hefyd yn ymwybodol y byddai unrhyw achosion positif a gaiff eu nodi yn yr wythnos nesaf yn arwain at unigolion yn gorfod hunanynsyu dros gyfnod y Nadolig, gan gynnwys Dydd Nadolig. Byddai hyn yn cael effaith enfawr ar ein cymuned.

Mae holl aelodau'r gymuned addysg yn bryderus am y cynnydd yn niferoedd yr achosion a'r effaith mae hyn yn ei gael ar blant a theuluoedd. Oherwydd hyn, cytunwyd gyda'r Awdurdod Lleol y bydd dysgu wyneb yn wyneb yn dod i ben i bob disgybl ddiwedd dydd Gwener, 17 Rhagfyr, ac y **bydd dysgu ar-lein yn digwydd ar gyfer pob disgybl ar 20 & 21ain o Ragfyr.** Mi fydd athrawon yn darparu tasgau i ddisgyblion trwy Seesaw a / neu google classroom a byddant ar gael rhwng 9yb-10yb yn y bore os bydd disgyblion angen unrhyw help neu arweiniad gyda'u gwaith. Os byddai'n well gennych pe bai gwaith eich plentyn wedi'i argraffu, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda cyn dydd Gwener.

Bydd pob ysgol yn sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer **dysgwyr diamddiffyn a phlant gweithwyr hanfodol lle bo angen.** Gofynnwn i rieni sy'n dymuno defnyddio'r ddarpariaeth hon archebu sesiynau gyda **ni erbyn dydd Iau 16eg o Ragfyr trwy ffonio neu ebostio'r ysgol.** Gellir dod o hyd i restr o weithwyr hanfodol yn y canllawiau canlynol- Adnabod plant gweithwyr hanfodol: canllawiau | LLYW.CYMRU. **Gofynnwn i chi beidio â defnyddio'r ddarpariaeth hon oni bai nad oes modd i chi wneud unrhyw drefniadau gofal plant amgen.** Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol, os oes angen darpariaeth ar gyfer disgyblion, na fyddant yn cael eu rhoi mewn swigod dosbarth fel y buont o'r blaen.

Mae'r awdurdod lleol a chymuned ein hysgol yn ymroddedig i gynnig y ddarpariaeth orau o dan amgylchiadau sy'n gynyddol heriol ac rydym yn deall pa mor bryderus yw'r sefyllfa i chi.

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddiolch i holl staff yr ysgol sydd wedi gweithio'n ddiflino i roi mesurau cadarn a llym ar waith a gwneud eu gorau glas i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel. Rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus yn y sefyllfa hon.

Mawr obeithiaf y byddwch i gyd yn mwynhau Nadolig diogel gyda'ch teulu ac y gallwn edrych ymlaen gyda'n gilydd am sefyllfa well yn y flwyddyn newydd.

Yn ddiffuant

Mrs Lora Sockett